Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

Cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr

22 Hydref 2025, ym Mhrifysgol Salford

Yn bresennol

Aelodau'r Bwrdd

Christian Brodie (Cadeirydd)
Jimena Alamo
Nic Beech
Nicky Callow
Caroline Carter
Fazal Dad
Phil Deans
Alex Fraser
Rachid Hourizi
Lucy Jones
Richard Kaldhi
Karl Leydecker
Mirjam Plantinga
Dani Saghafi
John Sawkins
Alex Stanley
Peter Vermeulen

Swyddogion

Vicki Stott (Prif Weithredwr)
Tom Yates (Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol)
Caroline Blackburn (Prif Swyddog Gweithredol a Chyllid)
Rob Stroud (Cyfarwyddwr Gweithredol Sicrhau Ansawdd a Gwelliant)
Nick Bayley (Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Busnes ac Ymgysylltu)
Rachel Hill-Kelly (Ysgrifennydd Cynorthwyol y Cwmni)

Croeso, ymddiheuriadau a sylwadau agoriadol y Cadeirydd

1. Croesawodd Christian Brodie yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i Nic Beech am drefnu'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Odette Hutchinson a Moira Fischbacher-Smith.

Cworwm a Buddiannau (Eitem 2)

2. Cyhoeddwyd bod y cyfarfod yn cyrraedd y cworwm. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau pellach.

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 11 Mehefin 2025 a Materion yn Codi o'r Cofnodion (Eitem 3, BD-25-26-01)

3. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, ac ymdriniwyd â materion eraill a gododd mewn mannau eraill yn y papurau.

4. **Cymeradwywyd** y cofnodion fel cofnod cywir.

Adroddiad y Prif Weithredwr ac adroddiad ar ddatblygiadau polisi a rhyngweithiadau â chyllidwyr a rheoleiddwyr yng ngwledydd y DU (Eitem 4 BD-25-26-02)

5. Cyflwynodd Vicki Stott yr adroddiad a thynnodd sylw at yr heriau parhaus wrth gwblhau'r prosiect trawsnewid oherwydd gallu cyfyngedig y staff i gynnal busnes-fel-arfer tra hefyd yn bwrw ymlaen â newid tymor-hwy.

6. Roedd y papur gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer addysg a sgiliau ôl-16 bron fel y disgwyliwyd o ystyried trafodaethau QAA â'r Adran Addysg. Croesawyd y cynnig i ailgyflwyno grantiau cynhaliaeth. Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos bwriad deddfwriaethol clir i gyflwyno cysylltu ffioedd dysgu â chwyddiant. Yn ogystal, cynigiwyd ardoll o 6% ar fyfyrwyr rhyngwladol. Roedd y papur gwyn yn dangos bod safle'r rheoleiddiwr yn Lloegr wedi'i atgyfnerthu.

7. O ran materion ansawdd, awgrymodd y papur gwyn y byddai mecanwaith yn cael ei gyflwyno i gysylltu ffioedd ag ansawdd, gyda'r cyfle i godi ffioedd uwch dim ond os barnwyd bod darparydd yn rhagorol ar lefel sefydliadol, yn ôl pob tebyg ar ffurf sgoriau Aur neu Arian yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) diwygiedig.

8. Yn eu hymateb cyhoeddus, mynegodd QAA bryder y gallai sefydliadau sy'n anelu at wella ansawdd fod heb y gallu ariannol i wneud hynny pe bai ffioedd i bob diben yn cael eu capio. Roedd y TEF yn parhau i ddibynnu ar ddata a oedd tua 18 mis oed, gan gosbi darparwyr o bosibl am faterion a allai fod eisoes wedi'u datrys. Roedd y cynnig i gapio niferoedd myfyrwyr mewn meysydd lle barnwyd bod yr ansawdd yn wael yn ddull mwy rhesymegol, er y byddai hyn hefyd yn seiliedig ar ddata nad yw bellach yn gyfoes. Nid oedd unrhyw arwydd a fyddai Cymru neu'r Alban yn gweithredu cynnydd cyfatebol mewn ffioedd ar gyfer myfyrwyr o Loegr sy'n astudio yn y gwledydd hynny.

9. Nododd Alex Stanley y byddai un o ganlyniadau anfwriadol cynigion y papur gwyn yn creu sefyllfa heriol i gynrychiolwyr myfyrwyr o amgylch yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a'r TEF, gan y gallai cefnogi eu prifysgol â chyflwyniad o ansawdd uchel nawr olygu ffioedd uwch i'w myfyrwyr. [wedi'i olygu]

10. Roedd yna gydnabyddiaeth i bwysigrwydd safonau yn y papur gwyn. [wedi'i olygu]

11. [wedi'i olygu]

12. [wedi'i olygu]

13. [wedi'i olygu]

14. Roedd Ysgol Fusnes Llundain wedi gwneud modelu manwl ar effaith ardoll myfyrwyr rhyngwladol ar alw a sensitifrwydd prisiau, ac wedi dod i'r casgliad na allai sector y DU ddenu digon o fyfyrwyr i wneud iawn am yr ardoll.

15. Nododd VS fod y cyfarfod yn cyd-daro â diwrnod olaf tymor Douglas Blackstock fel Llywydd y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (ENQA). Roedd VS wedi cyfleu dymuniadau gorau QAA iddo.

16. Rhannodd RS fyfyrdodau ar berthnasoedd o fewn Ewrop, gan dynnu sylw at y gwerth yr oedd cysylltiad parhaus DB wedi'i ddwyn i QAA, yn enwedig gan fod ffocws mewnol yr Asiantaeth yn parhau ar aliniad â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG). Byddai strategaeth Ewropeaidd newydd QAA yn anelu at barhau i fanteisio ar gyfleoedd a chynnal enw da QAA fel asiantaeth uchel ei pharch.

17. Roedd yr adroddiad canol cylchred i ENQA wedi cael derbyniad cadarnhaol. Roedd Bwrdd ENQA wedi mynegi eu diolch i QAA am eu diweddariad cynhwysfawr ar y newidiadau a'r datblygiadau sylweddol yn eu gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol ers yr adolygiad diwethaf. Yn benodol, roedd Bwrdd ENQA wedi canmol ymdrechion dwys QAA mewn ail-leoli strategol, diwygio strwythurol, arloesi methodolegol, eu hymrwymiad parhaus i gydymffurfio ag ESG, a chryfhau ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

18. Roedd proses gynllunio flynyddol ddiwygiedig QAA wedi dechrau cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol, gyda thimau'n canolbwyntio ar nodau cyflawni, er bod angen mireinio rhai meysydd ymhellach. Roedd swydd wag Pennaeth Cymru a Gogledd Iwerddon yn gyfle i ailddychmygu'r ymagwedd weithredol yn y gwledydd hynny.

19. Roedd yr Adolygiad Ansawdd Allanol (AQR) cyntaf wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, gan arwain at ganlyniadau sicrhau ansawdd cadarnhaol i'r brifysgol a gymerodd ran, sef Prifysgol y Celfyddydau Bournemouth (AUB). [wedi'i olygu]

20. Rhoddodd TY ddiweddariad ar waith materion cyhoeddus [wedi'i olygu] a datblygiad y fersiwn nesaf o gynllun addysg draws-wladol QAA, gan y byddai'r rhaglen bresennol yn dod i ben yn 2026.

Adroddiad Monitro a Pherfformiad Diwedd Blwyddyn ar y Cynllun Blynyddol a'r Cyllid (Eitem 6, BD-25-26-04)

21. Roedd Rob Stroud wedi cyflwyno'r sefyllfa ddiwedd blwyddyn yn y cynllun blynyddol blaenorol, gan atgoffa'r Bwrdd fod y cynllun wedi'i ail-lunio yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr ail-strwythuro. Adroddodd y papur trwy eithriad, ac felly roedd yn adlewyrchu meysydd lle'r oedd gwaith wedi'i ohirio, ond ar y cyfan roedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'n dda yn erbyn y cynllun, gan gynnwys y flwyddyn lawn gyntaf o gyflawni yn erbyn y contract â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), y gyfran gyntaf o'r cynghorion a chanllawiau ar gyfer y Côd Ansawdd, a'r flwyddyn lawn gyntaf o'r Adolygiad Gwella Ansawdd Trydyddol (TQER) yn yr Alban.

22. Roedd yna un eithriad arwyddocaol yn ymwneud ag ymgysylltiad myfyrwyr, a oedd wedi bod yn rhan o'r cynllun blynyddol ers sawl blwyddyn. Nid oedd QAA wedi cwblhau eu hymagwedd eto, ac roedd yn y broses o'i datblygu ymhellach; byddai Pwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr (SSAC) QAA yn cael ei wahodd i ymwneud â'r gwaith hwn. Parhaodd yr Asiantaeth i ganolbwyntio ar fireinio ei hymagwedd at ymgysylltu â myfyrwyr, a oedd dan ystyriaeth ar lefel y Pwyllgor Gwaith. Cytunodd Jimena Alamo fod lle i SSAC weithredu'n fwy strategol. Roedd hi wedi cael ei synnu gan y lefel uchel o ddiddordeb mewn rolau gwag ar SSAC, gan ddangos lefel uchel o ddiddordeb myfyrwyr yng ngwaith QAA.

23. Prin fu’r cynnydd ar welliant yn y gwledydd datganoledig oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau. Roedd recriwtio rheolwr newydd ar y gweill yn dilyn dyrchafiad Amy Eberlin.

24. Roedd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynghori ar y Contract â’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol. [wedi'i olygu] Roeddem bron â chyrraedd pwynt hanner-ffordd trwy gyfnod cychwynnol y contract.

25. Nodwyd y byddai angen capasiti byr-dymor ychwanegol i fynd i'r afael â risgiau cydymffurfiaeth ESG. Cyn yr ailstrwythuro sefydliadol, roedd gweithrediadau adolygu wedi cael eu rheoli gan berchnogion dulliau unigol ac wedi'u llywodraethu trwy fframwaith llawlyfr sicrhau ansawdd. [wedi'i olygu] Rhoddodd ailstrwythuro QAA gyfle i fynd i'r afael â materion o'r fath a'u cywiro mewn pryd i wreiddio'r newidiadau cyn adolygiad ENQA 2028.

26. Cyflwynodd Caroline Blackburn yr adroddiad ariannol diwedd y flwyddyn. [wedi'i olygu]

27. Roedd gwasanaethau rheoleiddio wedi perfformio yn unol â disgwyliadau'r gyllideb. [wedi'i olygu]

28. [wedi'i olygu]

29. [wedi'i olygu]

30. [wedi'i olygu]

31. [wedi'i olygu]

Cofrestr Risg Strategol (Eitem 5, BD-25-26-03)

32. Cyflwynodd TY y gofrestr risg wedi'i diweddaru, a oedd wedi derbyn hyd yn oed mwy o sylw nag arfer yng nghyd-destun trafodaethau ar lefel y Pwyllgor Gwaith am y flwyddyn i ddod a'r heriau sy'n wynebu'r Asiantaeth. Roedd y risg sy'n gysylltiedig â safle rhyngwladol QAA wedi cael ei hisraddio, gan fod y risg wedi lleihau dros amser. [wedi'i olygu]

33. Roedd dwy risg wedi cael eu huwchraddio. Roedd y risg sy'n gysylltiedig ag EQAR/ENQA wedi cynyddu i adlewyrchu problemau a phryderon mwy gweladwy ynghylch alinio gwasanaethau newydd â safonau Ewropeaidd. Roedd y risg yn ymwneud â phobl hefyd yn uwch oherwydd yr heriau cyfredol o amgylch capasiti sefydliadol i weithredu newidiadau strategol ar gyflymder tra’n cynnal gweithrediadau busnes-fel-arfer. Byddai datrysiad dros-dro yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i fynd i'r afael â'r pryder hwn.

34. Roedd risg newydd (O3) wedi'i chynnwys ynghylch ansawdd a defnydd data. [wedi'i olygu]

35. [wedi'i olygu]

36. [wedi'i olygu]

37. [wedi'i olygu]

38. [wedi'i olygu]

39. Ystyriodd y Bwrdd risg S8 ynghylch y cynnydd mewn deallusrwydd artiffisial (AI), gan nodi ei bod wedi esblygu o fod yn risg weithredol i un strategol. [wedi'i olygu]

40. Adroddodd Caroline Blackburn fod dwy ddogfen fewnol wedi cael eu lansio'n ddiweddar: un yn amlinellu fframwaith ar gyfer cynyddu llythrennedd AI, ac un arall yn darparu canllawiau ar ddefnyddio offer AI bob dydd, gan gynnwys ystyriaethau ynghylch moeseg a diogelwch data. Roedd rhaglen o welliant parhaus ar y gweill i archwilio sut y gallai deallusrwydd artiffisial wella effeithlonrwydd gweithredol o fewn timau. Wrth i raglenni gwaith newydd gael eu datblygu, roedd cyfleoedd i ymgorffori deallusrwydd artiffisial er mwyn cynyddu effeithiolrwydd yn cael eu hystyried yn weithredol.

41. Awgrymwyd y dylid dadansoddi'r risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial yn ddwy risg ar wahân, mewnol ac allanol. Gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial fel teclyn lliniaru, tra gallai gweithredu gwael gynyddu risgiau eraill.

42. [wedi'i olygu]

43. Awgrymodd Dani Saghafi y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys dangosyddion risg allweddol yn y gofrestr. **Camau gweithredu:** TY i ystyried y potensial ar gyfer dangosfwrdd maes o law.

44. Awgrymodd y Bwrdd fod angen diweddaru'r disgrifiad o rai risgiau o ystyried pa mor ddeinamig oedd y lliniariadau.

45. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y gofrestr risg yn amodol ar y sylwadau niferus gan y Bwrdd yn cael eu hymgorffori yn y rhifyn nesaf.

Diweddariad Llafar ar berfformiad Chwarter 1 (Eitem 7, eitem lafar)

46. Roedd y cynllun blynyddol ar gyfer 2025-26 wedi'i grynhoi'n ddeg Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPIs), a gafodd eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mehefin. Roedd tîm y Pwyllgor Gwaith wedi bod yn defnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn i asesu a rheoli'r risgiau a nodwyd yn y gofrestr risgiau strategol. [wedi'i olygu]

47. [wedi'i olygu]

48. Cyflwynodd Caroline Blackburn ddiweddariad ar berfformiad chwarter 1. [wedi'i olygu] – mae'r sefyllfa'n ymddangos yn gryf ar y pwynt hwn yn y flwyddyn [wedi'i olygu].

49. [wedi'i olygu]

50. Roedd costau wedi parhau ar lefel dderbyniol ar y cyfan, er bod pwysau wedi bod oherwydd gwariant annisgwyl a diffyg arbedion yn sgil swyddi gwag i'w gwrthbwyso. Bu angen staff dros-dro oherwydd cyfyngiadau capasiti, gan fod swyddi gwag yn aml yn bodoli o fewn timau a oedd eisoes heb ddigon o adnoddau. Roedd pwysau chwyddiant wedi'u hystyried, gyda chyflogau a ffioedd adolygwyr yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o'r sylfaen gostau.

51. Roedd tri phrosiect blaenoriaeth wedi'u nodi i fynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti, gan fod yr un unigolion wedi bod yn gyfrifol am gyflawni gweithgareddau busnes-fel-arfer a mentrau newid, a oedd wedi profi'n anghynaladwy. Roedd camau gweithredu byr-dymor i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn cynnwys canolbwyntio ar gynhyrchu refeniw i gau'r bwlch ariannol, creu capasiti ychwanegol, ysgogi gwelliant parhaus i

wella effeithlonrwydd - er nad oedd hyn wedi arwain at ganlyniadau digonol eto - a datblygu arferion cyson i baratoi ar gyfer yr adolygiad ENQA sydd ar ddod.

52. Er mwyn cefnogi cyflawniad y prosiectau hyn, tra'n cynnal cyflymder y newid a sicrhau parhad y busnes-fel-arfer, cynigiwyd creu pedair i bum swydd newydd, am dymor penodol, ar draws timau. [wedi'i olygu]

53. [wedi'i olygu]

54. [wedi'i olygu]

Cyflwyniad Gwasanaeth; Datblygu Busnes (Eitem 9)

55. Cyflwynodd Nick Bailey y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i ddatblygu ffynonellau incwm newydd ar gyfer yr Asiantaeth. [wedi'i olygu]

56. Roedd QAA wedi adolygu anghenion defnyddwyr ac wedi mabwysiadu model llywodraethiant ar gyfer gwasanaethau ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. [wedi'i olygu]

57. Amlinellodd NB y model cylch bywyd gwasanaethau presennol a'r map aeddfedrwydd, gan nodi mai'r bwriad oedd symud gwasanaethau ymhellach ar hyd y gromlin twf trwy adnewyddu cynigion presennol a chyflwyno rhai newydd. Roedd yr holl wasanaethau wedi cael eu hasesu a'r portffolio wedi'i rannu'n segmentau, â ffocws ar dri maes gweithgaredd craidd: achredu, cynghori a chydweithio. Bwriad y gwaith hwn oedd gosod gwasanaethau ar sail fwy cynaliadwy, gan symud i ffwrdd o weithgareddau annibynnol.

58. Roedd gwasanaethau achredu'n cael eu hesblygu o adolygiadau untro i ymgysylltiad ailadroddus. Roedd yr Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol (IQR) yn cael ei ddatblygu'n fodel achredu a oedd yn alinio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG), gan ganiatáu i QAA gyflawni nodau strategol cleientiaid trwy gynnwys modiwlau dewisol. Disgwylid i uno IQR ac Adolygiad Ansawdd Dewisol (EQR) arwain at fwy o effeithlonrwydd o ran cyflawniad.

59. Roedd y set gwasanaethau cynghori yn esblygu o fod yn gyfres o raglenni adweithiol i fodel mwy strwythuredig y gellid adeiladu arno, a oedd yn gallu diwallu anghenion sefydliadau ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu hail-becynnu i fformatau modiwlaidd a fyddai'n alinio â heriau sefydliadol. Byddai gwasanaethau newydd yn mynd i'r afael â holl amodau Swyddfa'r Myfyrwyr, a byddai'r gwasanaeth Pwerau Dyfarnu Graddau hefyd yn mabwysiadu dull modiwlaidd.

60. [wedi'i olygu]

61. [wedi'i olygu]

62. [wedi'i olygu]

63. [wedi'i olygu]

64. [wedi'i olygu]

65. [wedi'i olygu]

66. [wedi'i olygu]

67. [wedi'i olygu] Gellid datblygu'r cynhyrchion arfaethedig yn gymharol gyflym pe bai'r capasiti yno, a byddai'r Pwyllgor Gwaith yn dychwelyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr â manylion y cynigion.

68. [wedi'i olygu]

Adroddiad ar Faterion Ariannol (Eitem 8, BD-25-26-05)

69. Cyflwynodd Caroline Blackburn yr adroddiad ar fuddsoddiadau. [wedi'i olygu]

70. [wedi'i olygu]

71. [wedi'i olygu]

72. [wedi'i olygu]

Diploma Mynediad i Addysg Uwch Ryngwladol (Eitem 11 BD 25-26-07)

73. Esboniodd RS y cyd-destun ar gyfer y posibilrwydd o ddatblygu Diploma Mynediad i AU rhyngwladol, a oedd wedi'i archwilio'n gyntaf cyn pandemig COVID-19. Roedd hyn wedi'i sbarduno gan alw gan Awdurdodau Dilysu Mynediad (AVAs) i allu cynnig y diploma mewn marchnadoedd rhyngwladol. Gwnaed rhywfaint o waith rhagarweiniol yn 2022 i archwilio dichonoldeb darpariaeth ryngwladol; fodd bynnag, nodwyd sawl her. Aeth newidiadau dilynol o fewn fframwaith y Diploma Mynediad i AU i'r afael â'r materion hyn o fewn y cyd-destun domestig, gan greu cyfle i ailystyried datblygiad diploma rhyngwladol.

74. Roedd diwygio'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad (ARLC) wedi gwella'r gwaith craffu ar y fenter hon. Penodwyd Pennaeth Mynediad yn ddiweddar, a ddaeth â safbwynt ffres hefyd. Roedd ARLC wedi ystyried y cynnig yn eu cyfarfod diwethaf ac wedi penderfynu peidio â chyflwyno argymhelliad ffurfiol i'r Bwrdd ar hyn o bryd. Yn hytrach, roedd y pwyllgor wedi dewis rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion allweddol. Felly, diweddariad dros-dro oedd y papur, â'r bwriad o gyflwyno papur pellach i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr. Ers datblygiad cychwynnol y cysyniad ar gyfer mynediad rhyngwladol, mae'r dirwedd addysgol ehangach a'r cymhellion economaidd wedi newid yn sylweddol. Byddai datblygiadau polisi yn dilyn cyhoeddi'r papur gwyn yn dylanwadu ar gyfeiriad a ffocws y cymhwyster yn y dyfodol.

75. Tynnodd RH sylw at y ffaith mai pryder canolog ARLC oedd yr amwysedd ynghylch y term "mynediad rhyngwladol," a oedd yn aml yn cael ei ddehongli i olygu myfyrwyr rhyngwladol yn mynd i mewn i addysg uwch yn y DU, ond gallai hefyd olygu amryw o bethau eraill, â'r proffil risg yn newid yn unol â hynny. Adroddodd Fazal Dad fod ARLC wedi cael trafodaeth gadarn ynghylch natur y galw, llwybrau dilyniant, risgiau cysylltiedig, ac ystyriaethau o ran enw da.

76. Nododd y Bwrdd fod y berthynas â'r Asiantaethau Dilysu Mynediad wedi newid yn sgil yr ailosodiad rheoleiddiol a gymeradwywyd yn gynharach yn y flwyddyn. Pe bai QAA yn penderfynu nad oedd diploma rhyngwladol yn ymarferol ar hyn o bryd, roedd potensial o hyd i ehangu diploma'r DU, a oedd yn gweddu'n fwy amlwg i amcanion elusennol QAA, diolch i'r gwelliannau rheoleiddiol.

77. [wedi'i olygu]

Penodiadau ac Ymddeoliadau i'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd (Eitem 12 BD 25-26-08)

78. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y penodiadau canlynol, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Enwebu a Thaliadau:

79. I'r Pwyllgor Cynghori ar y Contract â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, cyfetholiad:

    Yn y categori canlynol: *bydd gan y Bwrdd y pŵer i gyfethol hyd at ddau aelod annibynnol ychwanegol sydd â sgiliau neu brofiad perthnasol o'r tu allan i'r sefydliad i'r Pwyllgor am y cyfnod y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn briodol (ar yr amod na fydd y cyfnod mwyaf yn fwy na'r cyfnod mwyaf a ganiateir ar gyfer aelod o'r Pwyllgor). Bydd gan aelodau cyfetholedig yr un statws ag aelodau'r Pwyllgor oni nodir yn wahanol wrth eu penodi gan y Bwrdd.*

    Vanessa Davies, am dymor cychwynnol o 3 blynedd tan 23 Medi 2028.

80. I Bwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr, am dymor cyntaf o flwyddyn, yn dilyn proses gystadleuol a chyfweliadau, tan 22 Hydref 2026

    a) Shirley Tian

    b) Shani Louison-Thomas

    c) Hannah Walton

    d) Jessica Sanders

    e) Brijesh Gajjar

81. Nododd y Bwrdd aelodaeth Pwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr a'r meysydd o'r sector yr oedd yn eu cynrychioli. Dwedodd Alex Stanley fod y broses ddethol wedi bod yn fwy cystadleuol nag a ragwelwyd, â safon uchel o geisiadau. Roedd y rhai a ddewiswyd wedi adlewyrchu amrywioldeb corff y myfyrwyr a'u profiadau amrywiol.

82. [wedi'i olygu]

Adroddiad gan y Pwyllgorau (Eitem 13, BD-25-26-09)

83. Pwyllgor Cynghori Strategol Cymru: Nododd Nicky Callow mai dyma oedd ei chyfarfod cyntaf fel Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Strategol Cymru, ac nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers dros flwyddyn. Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithredol, er bod cydnabyddiaeth y gallai cyfarfodydd yn y dyfodol fabwysiadu ymagwedd fwy strategol. Nodwyd bod ymgynghoriad Medr wedi'i gyhoeddi yn gynharach y diwrnod hwnnw, ac roedd pryderon o fewn y sector addysg uwch ynghylch cynnwys yr ymgynghoriad a'r lefel ganfyddedig o fiwrocratiaeth dan sylw. Diolchodd NC i AS am roi cyflwyniad ar ansawdd, a chadarnhaodd y byddai cynrychiolwyr myfyrwyr yn cael eu cynnwys ar Bwyllgor Cynghori Strategol Cymru yn y dyfodol.

Gadawodd RS, TY, Caroline Blackburn, Nick Bayley a VS y cyfarfod

Dyraniad Cyflog y Pwyllgor Gwaith (Eitem 14, BD-25-26-10)

84. [wedi'i olygu]

85. [wedi'i olygu]

86. [wedi'i olygu] **Cytunwyd** y byddai cynnwys codiadau cyflog blaenorol yn y papur o gymorth i'r Bwrdd wneud penderfyniadau tymor hwy ynghylch cyflog y Pwyllgor Gwaith. **Camau gweithredu:** VS a Caroline Blackburn i gynnwys data.

87. Roedd yn fwriad cynnal ymarfer meincnodi ar gyfer QAA yn y flwyddyn newydd [wedi'i olygu].

88. [wedi'i olygu]

89. [wedi'i olygu]

90. [wedi'i olygu]

Galw Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Eitem 15, BD-25-26-11)

91. Cymeradwyodd y Bwrdd yr hysbysiad ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Byddai aelodau'r cwmni'n ymuno â chyfarfod Teams ar gyfer busnes ffurfiol y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a diweddariad gan y Prif Weithredwr.

Unrhyw Fusnes Arall

61. Doedd dim

Dyddiad y cyfarfod nesaf

62. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 10 Rhagfyr 2025.

Rhestr Gweithredu Bwrdd y Cyfarwyddwyr				
Cofnod:	**Camau gweithredu:**	**Perchennog:**	**Dyddiad cwblhau:**	**Diweddariad:**
25-26-31	CB i gywiro camgymeriad teipio mewn ffigurau	CB		Cyflawnwyd
25-26-43	TY i ystyried dangosfwrdd ar gyfer y gofrestr risg	TY		Trafodwyd yn ARC – i ystyried y tymor hwy.